Gweddïau LAS POSADOS

Gweddi i'w defnyddio ar ddechrau neu ar ddiwedd y dod ynghyd.
Os dymunwch, gallwch oleuo cannwyll.

Heddiw *rydym yn rhannu / rydym wedi rhannu pryd / cyfeillgarwch / cymdeithas*
gyda'n *teulu/ ein cyfeillion,*
gan gofio'r diwmod
y ganwyd y plentyn arbennig.
Gyda'n gilydd rydym yn goleuo Cannwyll Crist fel arwydd bod Duw wedi cael ei eni yma gyda ni.

Goleuwch gannwyll - a chynhaliwch ychydig eiliadau o dawelwch

Gyda geni'r Iesu
daw goleuni i'r byd,
goleuni Heddwch a Gobaith.
Diolch i ti o Dduw
am dy roddion o Heddwch a Gobaith,
gweddïwn y gallwn ofalu am y rhoddion hyn yn ddoeth
a'u defnyddio yn ein cartrefi ac yn ein cymuned.

Mae'n dywyll tu allan!
ond daeth seren i'r nef;
a Mair gyda Joseff sy'n teithio i'r dref.
Goleuwn y gannwyll yn groeso i'r ddau
ar eu siwrnai i Fethlem a hithau'n hwyrhau.
O Dduw,
fel y daw goleuni o'r gannwyll hon,
boed i fendith Iesu Grist ddod arnom ninnau,
gan gynhesu ein calonnau
a goleuo ein ffordd.
Boed i Grist ein Gwaredwr ddod â bywyd
i dywyllwch y byd hwn,
ac i ninnau, wrth inni ddisgwyl ei ddyfodiad.

O Iesu Grist,
Emaniwel, tyrd i drigo gyda ni.
Dyhead yr holl genhedloedd;
A rhodd i bob cenhedlaeth,
Tyrd, gwna dy gartref gyda ni.
Mae pob cenedl, pob un,
yn disgwyl amdanat,
Iesu, tyrd atom.

O Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd,
tyrd ac achub dy bobl.
Llawenydd pob calon,
Nerth y rhai hynny sy'n dlawd,
tyrd ar frys i'n helpu.

Tywysog Tangnefedd,
dysg y llew a'r oen bychan,
dysg y gath a'r llygoden,